

## TREFNIADAU NEWYDD AR GYFER CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AC ANABLEDD

Medi 2021

Annwyl Rhiant / Gofalwr

### **Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (ADY ET 2018)**

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd yng Nghymru yn newid. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd fwy hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion addysgol neu anableddau arbennig ac maent yn ymdrechu i ddarparu system addysg gwbl gynhwysol i ddysgwyr Cymru.

Mae'r system newydd yn sicrhau bod:

- anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, yn cael sylw cyflym fel bod pob dysgwr yn cael y gefnogaeth i gyrraedd eu llawn potensial;
- ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu;
- y dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn a'u bod nhw a'u rheni a'u gofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn eu dysg. (Dull Person Canolog).

O fis Medi 2021, mi fydd y system newydd **yn dod i mewn yn raddol** dros y blynyddoedd nesaf (2021 – 2024). Dyma rhai o negeseuon allweddol ynglŷn a'r newid.

- Y termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau Dysgu ac Anableddau (ADA) yn cael eu newid i'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA) yn ysgolion yn cael eu galw'n Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).
- Mae'r Côt ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc oedran 0-25. Mae hyn yn golygu bod blynyddoedd cynnar a cholegau addysg bellach yn mynd i gael dyletswyddau o dan y ddeddf, ond nid yw hyn yn cynnwys Addysg Uwch na phrentisiaethau.
- Mae'r system raddedig gyfredol o Flynyddoedd Cynnar/Gweithredu Ysgol, Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu Ysgol a Mwy a Datganiadau yn cael eu disodli yn ystod y 3 blynedd nesaf. Bydd gan pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi eu hadnabod ag sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn disodli'r holl gynlluniau unigol eraill. Bydd CDU ar gyfer y plant sydd o dan oedran ysgol orfodol, h.y. yn y blynyddoedd cynnar yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.
- Bydd yr ysgol yn cynnal y rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Unigol ond gallant hefyd cael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth.
- Mae'r Ddeddf yn disgwyl bod holl partneriaethau megis Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio ar y cyd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY.
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rheni a gofalwyr i gyfrannu tuag at greu a chynnal y Cynlluniau Datblygu Unigol drwy gynllunio Person Canolog.

- Disgwylir y dylid y cydweithio agosach helpu osgoi anghytundebau.
- Bydd yr holl gamau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg os yn ofynnol.

Bydd disgyblion sydd ar hyn o bryd ar gofrestr AAA ar drothwy gweithredu ysgol, gweithredu ysgol a mwy a throthwy SAPRA yn cael eu hadolygu gan yr ysgol. Bydd y rhai a nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol ac sydd ym **meithrin 1, meithrin 2, blwyddyn 1, blwyddyn 3, blwyddyn 5, blwyddyn 7, blwyddyn 10** yn symud yn raddol i'r system ADY newydd rhwng Ionawr a Gorffennaf 2022. Bydd y disgyblion hynny sydd yn y grwpiau blwyddyn eraill yn ogystal â'r rhai sydd â datganiadau AAA yn parhau i gael eu hanghenion wedi'u hadnabod a'u diwallu trwy'r system anghenion addysgol arbennig gyfredol sy'n parhau i fod yn statudol ar eu cyfer.

Bydd y disgyblion sydd â'u anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod am y tro cyntaf yn ystod tymor yr Hydref 2021 yn cychwyn o dan y system ADY newydd.

Bydd y disgyblion sydd â SAPRA a chyfarfodydd adolygu blynyddol yn ystod tymor yr Hydref yma yn cael eu hadolygu. Os bydd eu hanghenion yn cwrdd â meini prawf ar gyfer ADY o dan y Ddeddf ADY newydd, bydd CDU yn cael ei ddatblygu ond ni fydd yn dod yn statudol tan Ionawr 2022. Tan hynny, bydd y SAPRA yn parhau mewn grym.

Ar hyn o bryd mae gan rai disgyblion GDU a ddatblygwyd, gyda chytundeb rhieni, fel rhan o dreial ar gyfer cyflwyno CDU. Bydd y rhain yn dod yn statudol yn Ionawr 2022.

Byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig os yw eich plentyn yn cael ei adnabod fel dysgwr gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), a chynllun datblygu unigol (CDU). Byddwn hefyd yn eich gwahodd i fynychu adolygiad Person Canolog er mwyn cydweithio a chydgyllunio.

<nodwch enw> ydy CADY yr ysgol a dylech gysylltu a hwy am fanylion neu gyngor o ran eich plentyn. Hefyd, mae gan Geredigion Gydlynnydd ADY – Darpariaeth Disgyblion a Rhieni sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth a chynngor gyda materion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. I gysylltu ffoniwch 01545 570881 neu ebostiwch [pps@ceredigion.gov.uk](mailto:pps@ceredigion.gov.uk).

Gweler manylion ychwanegol ar côd ADY ar wefannau canlynol:

Llywodraeth Cymru – [Anghenion Addysg Ychwanegol \(anghenion addysgol arbennig\) | Is-Bwnc | LLYW.CYMRU](#)

Cyngor Sir Ceredigion – [Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\) - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Mae yna hefyd cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sydd yn rhoi rhagarweiniad i'r system ADY newydd sydd ar gael nawr ar Lwyfan HWB Llywodraeth Cymru  
<https://hwb.llyw.cymru/newyddion/erthyglau/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b>

Yr eiddoch yn gywir,